# LLENWI

Mae Llenwi yn brosiect Creu Conwy cyffrous a fydd yn creu ac yn gosod arwyddion cyrchfan sy'n cynnwys gwaith celf ar raddfa fawr ar draws sir Conwy. Caiff y prosiect ei arwain gan Livi Wilmore, artist realiti estynedig lleol, a Tomos Jones,

artist arwyddion traddodiadol — byddant yn cydweithio ac yn cynnal gweithdai creadigol fel bod cymunedau'n gallu ysbrydoli'r gwaith celf a'r arwyddion terfynol.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar yr ardaloedd yma: Abergele, Bae Colwyn, Llandudno, Conwy a Llanrwst. Fel rhan o'r cam ymchwilio mae'r artistiaid yn gobeithio dod i adnabod pob ardal mewn ffordd ychydig yn wahanol . . . a dyna sut allwch chi helpu.

Mae arnom ni angen cymorth i gasglu straeon, dywediadau, ymadroddion, atgofion, lluniau ac unrhyw beth arall am eich ardal. Does dim cyfyngiad ar beth a ellir ei gasglu, na sut caiff ei gyflwyno. Rhannwch eich straeon (doniol, gwirion neu drist), atgofion, dywediadau neu holwch ffrind / perthynas / cymydog / aelod o'r gymuned.

Tref:

## Atgof

Rhannwch eich atgofion o fod yn y dref! Gall fod yn atgof emosiynol o'ch ymweliad cyntaf neu rywbeth doniol a wnaeth eich ffrind yr wythnos ddiwethaf!

## Pum Gair

Pa bum gair neu ymadrodd sy'n dod i'ch meddwl pan fyddwch chi'n meddwl am y dref? Gall fod yn ansoddair, yn deimlad neu'n fratiaith leol!

## Symbolau

Pa ddelweddau sy'n dod i'ch meddwl? Gall fo yn heneb, yn ddarn o bensaerniaeth, yn blanhigyn neu'n anifail rydych chi'n ei weld, neu'n gacen yr oeddech chi'n ei chael yn nhy eich ffrind gorau ers talwm!

## Unrhyw beth arall

Oes 'na unrhyw beth arall yr hoffech chi ei rannu am y dref? Rydym ni hefyd yn chwilio am safleoedd posib i osod y darnau celf, felly os ydych chi'n gwybod am wal wag dda rhowch wybod i ni amdani!

Dim digon o le? Anfonwch unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu at creu@conwy.gov.uk a rhowch MEMORY SHARE yn llinell pwnc yr e-bost.


CONWY — Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Wedi'i yrru gan FFYNIANT BRO
Diwylliant Conwy Culture
@livicggurl
@momosigns

# Bydoedd Bychan

LLENWI



Fel rhan o'n prosiect byddwn yn arbrofi gyda chreu "bydoedd bychan 3D" o'ch lluniau panorama. Rydym eisiau gweld "eich byd", gall fod yn ystafell yr ydych yn gallu ymlacio ynddi neu ardal benodol ar eich hoff fainc — eich lle heddychlon personol chi yn sir Conwy.



Sganiwch yma i weld enghraifft o'r byd realiti estynedig 3D hwn.

## Sut?

Os oes gennych chi ffÔn clyfar, byddwch yn gallu tynnu llun panoramig ar yr ap camera, drwy dynnu llun ar y modd "pano" a symud eich camera'n araf deg i'r dde i sganio'r ardal a ddymunir. Os oes gennych chi gamera traddodiadol, gallwch gymryd dau neu fwy o luniau sy'n cyd-fynd, ac yna chwilio am "online panorama stitcher" -mae sawl dewis hyfyw ar gael!

## Yna?

Anfonwch eich llun atom dros e-bost at creu@conwy.gov.uk gan roi PANO yn llinell pwnc yr e-bost a brawddeg am gyd-destun eich panorama (os hoffech ei rannu!)

(Drwy rannu'r llun rydych chi'n cytuno i ni ddefnyddio eich llun yn ein profiad realiti estynedig - byddwch yn aros yn ddienw - byddwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y prosiect)

## Gweithdai!

(Achadwch mewn cysylltiad!)

Byddem yn cynnal gweithdai ar farddoniaeth a modelu digidol drwy gydol mis Mai. Am fwy o wybodaeth ewch i t.ly/Liv2v
(neu ewch i'ch llyfrgell leol)

Dilynwch y tudalennau Instagram isod/y ddolen uchod i weld sut mae eich syniadau'n cael eu defnyddio neu cofrestrwch i gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy glicio ar y ddolen uchod.

Ewch a'r ddalen hon yn ol i'ch llyfrgell leol neu i bwy bynnag a roddodd hi i chi

(Gallwch hefyd fynd â hi gartref gyda chi ac anfon eich ymatebion dros e-bost!)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO
DIWYLLIANT CONWY CULTURE

@livicggurl
@momosigns

# Gwrthrych Arwr!

LLENWI

## Beth ydyw?

" Gwrthrych arwr " yw gwrthrych sydd wrth wraidd stori, atgof neu antur wych (neu ddinod). Gall fod yn gadwyn y gwnaethoch chi ddod o hyd iddi ar y traeth neu 'n degan plastig chwyslyd a gawsoch chi gan eich cefnder/cyfnither! Rhywbeth sy 'n eich atgoffa chi o 'r dref yr ydych chi wedi 'i ddewis yn sir Conwy!

### Fy ngwrthrych arwr ydy:

Dywedwch wrthym am eich gwrthrych a gyda ble y mae wedi 'i gysylltu ag ef.




Lluniwch neu ysgrifennwch am eich gwrthrych arwr yn y lle gwag a ddarperir. Os hoffech arbrofi ymhellach gyda ffyrdd newydd o arddangos eich gwrthrych, mae " dysgu pellach " ar gael - Os ydych chi 'n rhoi cynnig ar unrhyw un o 'r offer hyn, hoffem weld eich campweithiau!

### Modelu 3D!

Chwiliwch ar-lein am Sculpt GL a Womp 3D i ddod o hyd i raglenni gwych am ddim ar y we (gan olygu nad ydych chi 'n gorfod lawr lwytho unrhyw beth) ar gyfer arbrofi gydag adeiladu gwrthrychau digidol.

### Ffotogrametreg!

Ffotogrametreg yw ffordd o greu modelau 3D allan o nifer o luniau o wrthrych/ unigolyn/ amgylchedd. Mae 'n ffordd wych o archifo eiliad mewn amser. Rwy 'n argymell edrych i mewn i 'r apiau ffÔn clyfar am ddim Reality Scan neu Polycam i ddechrau arni.

## Yna?

Os ydych chi wedi creu gwrthrych arwr yn rhywle arall, anfonwch lun at creu@conwy.gov.uk gan roi HERO OBJECT yn llinell pwnc yr e-bost.

(Drwy rannu 'r llun rydych chi 'n cytuno i ni ddefnyddio eich llun yn ein profiad realiti estynedig - byddwch yn aros yn ddienw - byddwn hefyd yn rhoi 'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y prosiect)


CONWY Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
Ariennir gan Llywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Wedi'i yrru gan FFYNIANT BRO
Diwylliant Conwy Culture
@livicggurl
@momosigns